# Adroddiad Arolygu

**Lydia Thomas**

**Llandeilo**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



Final un d report

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

22/9/2022

Final unpublished report

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Final unpublished report

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus y gwrandewir ar eu lleisiau. Maent wedi ymgartrefu, yn hapus ac wedi ymlacio. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn dangos mwynhad yn eu cyfleoedd chwarae a sgiliau annibyniaeth da.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn ffordd effeithiol. Mae hi'n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus trwy ganmoliaeth ac yn gwella hunan-barch y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth y plant. Mae'n trefnu ei gweithgareddau chwarae a dysgu o amgylch anghenion a hoffterau'r plant a themâu tymhorol o dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r amgylchedd yn ddiogel. Mae'n darparu amgylchedd glân, cyfforddus a chroesawgar i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod eang o adnoddau sy'n addas ar gyfer gwahanol oedrannau a chyfnodau datblygiad.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn effeithiol. Mae ganddi systemau priodol ar waith i adolygu'r gofal a ddarperir. Mae'r gwarchodwr plant yn ymarferwr gofal plant â chymwysterau addas ac yn cadw'r hyfforddiant yn gyfredol. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda.

Final unpublished report

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hyderus y gwrandewir ar eu lleisiau. Maent yn cyfrannu eu syniadau ac yn cyfleu eu hoffterau i'r gwarchodwr plant. Er enghraifft, gofynnodd y plant am gael chwarae gydag adnoddau chwarae rôl y gegin a chawsant ymatebion cadarnhaol gan y gwarchodwr plant. Mae'r plant yn hyderus bod eu hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn gofyn i'r gwarchodwr plant am eu hoff ffrwythau ac yn dewis eu bowlenni ac offer yn eu hoff liw. Pan fyddant eisiau mwy o ddŵr, bydd y gwarchodwr plant yn gweithredu ar hyn ar unwaith.

Mae'r plant wedi ymgartrefu, yn hapus ac wedi ymlacio. Maent yn ymgartrefu'n syth wrth gyrraedd y lleoliad, gan archwilio'r gwahanol deganau ac adnoddau yn yr ystafell chwarae yn gyffrous. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel yn yr awyr agored, yn chwarae ochr yn ochr ag anifeiliaid anwes y fferm sy'n cael eu cadw ar wahân i'r plant. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y gwarchodwr plant gan eu bod yn gwenu pan fydd hi'n eu canmol am waith da. Teimla'r plant ymdeimlad o berthyn a bodlonrwydd wrth iddynt ddewis gwahanol deganau ac adnoddau yn rhydd yn yr amgylchedd dan do ac awyr agored, gan estyn am offer cegin ar gyfer chwarae rôl, swingio ar y siglenni a chwarae gyda'r peli yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Dengys y plant ystyriaeth a charedigrwydd tuag at ei gilydd. Maent yn rhannu ac yn cymryd eu tro am yr adnodd wal ddŵr a thrwy fynd i lawr y llithren, lle mae plant yn gweiddi *"Un, dau, tri, ffwrdd â ni!"* Mae'r plant yn dangos sgiliau gwrando da wrth wrando ar awgrymiadau gan y gwarchodwr plant sy'n eu cynghori i beidio ag ysgwyd y cwt mochyn cwta gan y gallai hynny ei ddychryn.

Mae'r plant yn dangos mwynhad yn eu cyfleoedd chwarae. Maent yn cychwyn eu chwarae eu hunain dan do ac yn yr awyr agored gan fod yr adnoddau ar lefel isel ac yn hygyrch iddynt. Mae'r plant yn canolbwyntio ar y tasgau sydd o ddiddordeb iddynt. Fe wnaethon nhw ddyfalbarhau am ychydig yn chwarae gyda thoes chwarae a thorwyr a gwneud siapiau. Mae plant yn falch o'u cyflawniadau wrth iddynt weiddi *"Dwi'n gwasgu! Edrycha… calon !!"* Mae'r plant yn sgrechian yn gyffrous wrth iddynt chwarae gyda'r ceffyl siglo a oedd yn gwneud synau ac yn siglo i'r gerddoriaeth.

Mae hyder y plant mewn medrau annibyniaeth yn datblygu'n dda. Maent yn cyrchu adnoddau sydd o ddiddordeb iddynt ac yn mwynhau chwarae ar eu pen eu hunain, gyda'u ffrindiau a'u gwarchodwr plant. Mae'r plant yn gyfarwydd â'u trefn arferol. Maent yn naturiol yn gwisgo esgidiau glaw eu hunain i fynd allan ac yn golchi eu dwylo wrth ddod i mewn ar ôl chwarae yn yr awyr agored. Gall y plant wneud pethau drostynt eu hunain yn unol â'u cyfnodau datblygu, fel bwydo eu hunain a datblygu sgiliau creadigol a chorfforol.

Final unpublished report

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn ffordd effeithiol. Mae'n hyderus ynghylch y camau priodol i'w cymryd pe bai pryder ynghylch amddiffyn plant ac mae wedi diweddaru ei hyfforddiant diogelu. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gan annog y plant i yfed o'u poteli dŵr bob amser. Mae'n dangos ymwybyddiaeth o'r canllawiau bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant, gan gynnig byrbrydau a chinio iach i'r plant. Mae'n dilyn gweithdrefnau hylendid da mewn perthynas â'i dwylo ei hun cyn paratoi bwyd, golchi dwylo'r plant cyn bwyta ac yn diheintio ardaloedd bwyta cyn i'r plant fwyta eu bwydydd. Fodd bynnag, nid oes gan y gwarchodwr plant dystysgrif hyfforddiant hylendid bwyd gyfredol. Mae polisïau a gweithdrefnau newid cewynnau yn briodol, ac mae'n dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru gan wisgo menig, diheintio'r man newid a golchi ei dwylo rhwng pob cewyn mae'n newid. Mae'r gwarchodwr plant yn goruchwylio'r plant yn dda bob amser. Mae ganddi gymhwyster cymorth cyntaf pediatrig cyfredol a chedwir cofnod o ddigwyddiadau a damweiniau. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant bob amser yn cael llofnodion gan rieni ar ffurflenni damweiniau.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus. Mae hi'n fodel rôl effeithiol, yn siarad yn gadarnhaol ac yn dawel â'r plant wrth iddynt chwarae a bwyta. Anogodd y plant i ddweud 'diolch' wrth y plant a rannodd ag eraill. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn tawelu meddwl y plant hynny sy'n swil gydag oedolion eraill sy'n ymweld â'r lleoliad ac yn diwallu eu hanghenion personol ac emosiynol. Canmolodd y gwarchodwr plant ymddygiadau cadarnhaol megis rhannu adnoddau chwarae rôl yn y gegin, gan ddweud wrth y plant *"Aaa, rydych chi'n bod yn neis iawn!"* Roedd y gwarchodwr plant yn annog ac yn gwella syniadau a galluoedd y plant trwy ymateb i'w hanghenion unigol. Roedd hi'n hybu eu hunan-barch trwy ganmol eu sgiliau da yn torri toes chwarae. Pan ddywedodd plant wrthi *"Edrycha, dwi wedi gwneud calon!"* gwenodd y gwarchodwr plant ac ymatebodd drwy ddweud *"Waw mae honna'n brydferth! Da iawn!"*

Mae'r gwarchodwr plant yn gwella sgiliau annibyniaeth y plant trwy eu hannog i wisgo eu hunain, bwydo eu hunain a thrwy ddarparu ystod o adnoddau i ddatblygu annibyniaeth. Mae'n trefnu ei gweithgareddau chwarae a dysgu o amgylch anghenion a hoffterau'r plant a themâu tymhorol o dan do ac yn yr awyr agored. Mae gan y gwarchodwr plant gofnod o gynnydd y plant ac mae'n cofnodi arsylwadau er mwyn darparu ar gyfer camau datblygiadol nesaf y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio peth Cymraeg achlysurol ac yn gwella adnabyddiaeth y plant o liwiau a siapiau trwy drafod a chwarae.

Final unpublished report

| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r amgylchedd yn ddiogel. Mae'n cynnal asesiadau risg ac yn eu hadolygu'n rheolaidd. Cedwir y drws ffrynt dan glo yn ystod oriau gwarchod plant ac mae giât ddiogelwch wedi'i gosod rhwng yr ystafell chwarae a'r gegin. Mae cemegion yn cael eu storio o gyrraedd plant ac mae pecynnau cymorth cyntaf bob amser yn agos. Mae gwiriadau cynnal a chadw yn gyfredol ac mae larymau tân yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant a chedwir cofnod o'r rhain.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân, cyfforddus a chroesawgar i'r plant. Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y plant yn effeithiol, gydag ystafell chwarae, cyfleusterau toiled a golchi dwylo gyda thywelion ar wahân, ac ardal fwyta lawr y grisiau. Mae ardal ddiogel i'r plant allu symud yn rhydd o'r tu mewn i'r ardal awyr agored. Mae digon o le yn yr ystafell chwarae gydag ardaloedd ar gyfer gemau pen bwrdd, gweithgareddau fel toes chwarae, ac ardaloedd lle gall plant chwarae rôl a gorffwys pan fo angen. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ardal awyr agored ag adnoddau da sy'n eang, yn ddiogel ac yn rhoi cyfleoedd i'r plant arbrofi â thywod a dŵr, a hefyd gweithgareddau corfforol yn ogystal â phrofiadau o archwilio trwy deithiau cerdded natur yn yr ardal leol.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod eang o adnoddau sy'n addas ar gyfer gwahanol oedrannau a chyfnodau datblygiad. Mae adnoddau crefftau, toes chwarae a gwneud marciau ar gael i'r plant. Mae yna flychau o deganau adeiladu wedi'u labelu'n Gymraeg ac adnoddau chwarae rôl sydd ar lefel y plant ac yn hygyrch i'r plant. Mae posau, jig-sos a llyfrau dwyieithog yn yr ystafell chwarae ac ystod o ddoliau, a theganau cerddorol a meddal. Mae gan yr amgylchedd awyr agored gyfoeth o adnoddau sy'n cynnwys cegin fwd, ardal chwarae tywod, wal ddŵr, ffrâm ddringo, siglen, sleid, si-so a cheir reidio ynghyd â pheli ac offer ar gyfer y gegin fwd. Mae adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliannau ac amrywiaeth.

Final unpublished report

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn effeithiol. Mae ganddi ddatganiad o ddiben manwl sydd wedi'i ddiweddaru yn ystod yr arolygiad sy'n bodloni rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol. Adolygir polisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd, a rhennir dogfennau â rhieni. Mae'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddilys. Trefnir cofnodion presenoldeb plant a bodlonir cymarebau oedolion i blant yn llawn bob amser. Mae cytundebau a chaniatâd ar waith ar gyfer y plant sy'n mynychu. Roedd gwiriad y gwarchodwr plant gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi dyddio cyn yr ymweliad arolygu hwn. Mae hwn yn faes i'w wella, ac mae'r gwarchodwr plant wedi cymryd camau ar unwaith i unioni hyn trwy gyflwyno cais newydd i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ystod yr arolygiad.

Mae gan y gwarchodwr plant system briodol ar waith i adolygu'r gofal a ddarperir. Mae'n ystyried barn rhieni a'r plant yn ei gwerthusiad. Mae'n nodi targedau i'w datblygu a gwelliannau i'w gwneud i'r lleoliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymarferwr gofal plant â chymwysterau addas ac yn cadw'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant gorfodol yn gyfredol. Mae ganddi wybodaeth a dealltwriaeth dda o amddiffyn a diogelu plant. Mae hi'n gwybod pa gamau i'w cymryd pe bai ganddi unrhyw bryderon am lesiant y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio ar ei phen ei hun ar hyn o bryd ac felly nid oes ganddi gynorthwywyr gwarchod plant. Mae'n ymgysylltu'n dda ag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'n hysbysu AGC am unrhyw newidiadau sylweddol i'r lleoliad ac mae wedi cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth diweddaraf. Mae gan y gwarchodwr plant drefniadau ar waith ar gyfer unrhyw bryderon a chwynion a allai godi.

Mae'r bartneriaeth â'r rhieni yn un da. Dywedodd rhieni wrthym fod eu plant yn hapus iawn yn y lleoliad, a'u bod yn mwynhau archwilio natur a'r awyr agored. Dywedant fod y gwarchodwr plant yn hawdd iawn mynd ati a bod eu plant yn gwneud cynnydd da.

Final unpublished report

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Sicrhau y ceir llofnod rhieni a gwarcheidwaid ar gyfer damweiniau ac anafiadau

A2. Sicrhau bod hyfforddiant hylendid bwyd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd

Final unpublished report

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Final unpublished report

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 20 | Nid oedd y gwarchodwr plant wedi sicrhau ei bod wedi diweddaru ei thystysgrif cofnod troseddol manwl. | Cyflawnwyd |
| 38 | Rheoliad 38 – Rhagofalon tân | Cyflawnwyd |
| | Cadw cofnodion – Rheoliad 30 | Cyflawnwyd |

Final unpublished report

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 21/11/2022

Final unpublished report